# Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010

**2010 mccc 3**

## 14 Diffiniadau

Yn y Mesur hwn—

ystyr "allforio" (*"export"*) yw cludo gwartheg, defaid neu foch allan o'r Deyrnas Unedig;

ystyr "allforiwr" (*"exporter"*) yw unrhyw berson sy'n allforio gwartheg, defaid neu foch;

ystyr "amcanion" (*"objectives"*) yw'r amcanion a nodwyd yn adran 2;

ystyr "cigyddwr" (*"slaughterer"*) yw unrhyw berson sydd â rheolaeth dros ladd-dy;

ystyr "gwartheg" (*"cattle"*) yw anifeiliaid buchol, gan gynnwys bison a byfflo;

ystyr "moch" (*"pigs"*) yw anifeiliaid o deulu'r moch, gan gynnwys baeddod gwyllt a moch fferal eraill;

ystyr "personau sy'n atebol i dalu ardoll" (*"persons liable to pay a levy"*) yw personau sydd wedi eu dynodi, drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru, yn rhai sy'n atebol i dalu ardoll o dan y Mesur hwn, neu bersonau sy'n cyflawni gweithgaredd cynradd dynodedig neu weithgareddau eilaidd dynodedig o dan y Mesur hwn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 14 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 18(2)**

**I2** A. 14 mewn grym ar 1.4.2012 gan O.S. 2011/2802, **ergl. 2(2)** (ynghyd ag erglau. 3, 4)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010, Adran 14.